

Adolygiad Blynyddol

2020-21



THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

Cynnwys

04

Hyrwyddo
Ymchwil

08

Cyfrannu
Arbenigedd

10

Hyrwyddo Dysgu
a Dadlau

14

Datblygu'r
Gymrodoriaeth

15

Cymrodyr a
Etholwyd yn 2021

19

Swyddogion
a Chyngor

20

Adolygiad
Ariannol

22

Crynodeb
Ariannol

TESTUN CLAWR BLAEN O THE LAND WOULD
DISAPPEAR GAN HANAN ISSA.

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
ELUSEN COFRESTREDIG 1168622
WWW.CYMDEITHASDDYSGEDIG.CYMRU

WEDI'I ARGRAFFU AR BAPUR
WEDI'I AILGYLCHU 100%.

Croeso gan y Llywydd

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un eithriadol mewn sawl ffordd. Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith enfawr ar ein bywydau a'n cymunedau. Mae wedi tynnu sylw at yr heriau a rennir sy'n wynebu Cymru a'r byd. Mae wedi arwain at newid sylweddol yng ngweithgareddau a threfniadau gweithio Cymdeithas Ddysgedig Cymru hefyd - mae hyn yn wir am gymaint o sefydliadau eraill hefyd.

Er gwaethaf y newid hwn, mae'r Gymdeithas wedi parhau i ffynnu. Yn 2020, roeddem yn gyflym i arloesi yn ein hymagwedd at ddigwyddiadau. Fe wnaeth hyn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd mwy, a mwy byd-eang nag erioed o'r blaen. Roedd ein symposiwm Trwy Brism Iaith / Through the Language Prism yn enghraifft wych o'r hyn y gall academi drawsddisgyblaethol sydd wedi'i chysylltu'n rhyngwladol ei chyflawni. Felly hefyd, lansiad Cyngrhair Academiâu Celtaidd eleni, sy'n cyfuno arbenigedd Cymru, yr Alban ac ynys Iwerddon mewn polisi ymchwil ac addysg uwch.

Mae'r awydd i ni ddathlu rhagoriaeth ym maes dysgu yn parhau'n gryf. Roeddwn yn falch iawn o groesawu 45 o academyddion, ymchwilwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i'n Cymrodoriaeth. Cawsom y nifer uchaf erioed o enwebiadau ar gyfer ein medalau hefyd.

Braint o'r mwyaf yw arwain Cymdeithas sydd, yn gynyddol, yn buddsoddi yn ein cenhedlaeth nesaf o arweinwyr a Chymrodyr. Mae ein Rhwydwaith Ymchwil Gyrfa Gynnar wedi ehangu'n gyflym ers ei lansio'r haf diwethaf. Mae'n cynnig cyfleoedd pwysig i ymchwilwyr ar draws Cymru i gyfarfod a chydweithio.

Rydym yn ailddyblu ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y Gymdeithas ar draws yr holl weithgareddau hyn. Mae'n hanfodol ein bod ni'n defnyddio'r ystod ehangaf o ddoniau a safbwyntiau wrth i ni wneud ein cyfraniad i Gymru a'r byd.

Hoffwn ddiolch i'n holl Gymrodyr am eu cyfraniadau tuag at wireddu ein nodau. Fel bob amser, rwyf yn ddiolchgar am y gwaith aruthrol sydd wedi cael ei gyflawni gan ein tîm bach ond ymroddedig o staff.



Yr Athro Hywel Thomas
Llywydd

Adolygiad o'r Flwyddyn gan y Prif Weithredwr

Pan ymunais â'r Gymdeithas dair blynedd yn ôl, cefais fy nharo gan ei hymrwymiad i fod yn academi wirioneddol genedlaethol i Gymru. Mae'r gallu i gyrraedd ar draws ffiniau daearyddol, a chysylltu pobl sy'n gweithio mewn meysydd ymchwil sy'n ymddangos yn anghymesur, wedi bod yn nodwedd o'n gwaith.

Mae'r cyrhaeddiad eang hwnnw wedi ein galluogi i ymateb yn gadarnhaol i'r amgylchiadau anodd sy'n wynebu sefydliadau addysgol yn ystod y pandemig hefyd. Er enghraifft, mewn grwpiau bord gron ar-lein ar ymchwil ac arloesi, rydym wedi dwyn ynghyd lleisiau a safbwyntiau mwy amrywiol nag a oedd yn bosibl o'r blaen. Ac mae ein Rhwydwaith Ymchwil Gyrfa Gynnar wedi darparu cyfleoedd hanfodol i ymchwilwyr o wahanol sefydliadau i gyfarfod a chydweithio.

Drwy gydnabod y llwyddiannau hyn, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cytuno i ddarparu cyllid newydd sylweddol ar gyfer ein gwaith i gefnogi ymchwilwyr. Rwy'n symud ymlaen i borfeydd newydd, a dyma fydd fy Adolygiad Blynyddol diwethaf. Rwy'n sicr y bydd fy olynydd fel Prif Weithredwr yn ail-fyw'r cyfle i gynyddu effaith y Gymdeithas wrth iddi dyfu.



Martin Pollard
Prif Weithredwr

Hyrwyddo Ymchwil

Rhwydwaith Ymchwil Gyrfa Cynnar

Lansiwyd Rhwydwaith Ymchwil Gyrfa Cynnar y Gymdeithas eleni. Mae'n gam pwysig yn ein datblygiad, ac mae'n rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo ymchwil.

Mae'r rhwydwaith yn cynnwys ymchwilwyr o bob disgyblaeth a sefydliad academiaidd yng Nghymru, yn ogystal â'r trydydd sector, y llywodraeth a diwydiant. Mae wedi'i anelu at unrhyw un sy'n dechrau gyrfa ym maes ymchwil, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar y rheini sydd ar y cam ôl-ddoethurol o'u gyrfa.

Roedd yn bwysig inni nodi sawl maes lle gallem ychwanegu gwerth at waith pensenol prifysgolion unigol a Crwsibl Cymru, rhaglen datblygiad personol, proffesiynol a sgiliau arwain uchel ei pharch ar gyfer arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru. O fewn ei fisoedd cyntaf, denodd y rhwydwaith dros 400 o ymchwilwyr gyrfa cynnar, gan ddechrau'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf a chyfleoedd i gydweithio ar draws disgyblaethau a sefydliadau.

Efallai fod y pandemig wedi arafu cynnydd cynnar y rhwydwaith, ond roedd y gwrthwyneb, mewn gwirionedd, yn wir. Fe wnaeth cyfarfodydd ar-lein ganiatáu i nifer fawr o bobl fynychu'r sesiynau a gynhaliwyd gennym, gyda'r cyfan yn anelu at eu cyflwyno gyda syniadau creadigol ac ysbrydoledig, wedi'u gwreiddio mewn profiad ac ymarfer. Daeth dros 80 o bobl i'r digwyddiad cyntaf mis Tachwedd, ar effaith ymchwil, ac yna dilynwyd hyn gan sesiynau ar ymgysylltu â'r cyhoedd ac iechyd meddwl. Roedd nifer o Gymrodryr yn cymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno'r sesiynau hyn.

Arweiniodd llwyddiant cynnar y rhwydwaith ni at recriwtio aelod newydd, rhan-amser o staff, oedd yn Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ei hun, i'w helpu i'w redeg, ac roedd hyn yn bwysig iawn o ran y ffaith i'r Gymdeithas lwyddo i sicrhau cyllid gan CCAUC i ddatblygu cynllun cymorth cenedlaethol ar gyfer datblygu ymchwilwyr.

Cynnal Iechyd Meddwl Da yn y Byd Academaidd

Un o ddigwyddiadau cyntaf y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar newydd oedd sesiwn ar-lein, oedd yn archwilio'r heriau iechyd meddwl y gallai Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar eu hwynebu drwy gydol eu gyrfa academaidd.

Canolbwyntiodd y panel ar y profiad 'syndrom twyllwr', sut i'w adnabod, a ble i geisio cymorth i'w wrthsefyll.

CYNNAL IECHYD MEDDWL DA YN Y BYD ACADEMAIDD

GWERSI GAN EIN RHWYDWAITH
YMCHWIL GYRFA CYNNAR



Medalau 2021 y Gymdeithas

Medal Hoggan Frances: ar gyfer ymchwilwyr benywaidd rhagorol mewn meysydd STEM



Enillydd:
Yr Athro Dianne Edwards, Prifysgol Caerdydd FLSW FRS

Mae'r Athro Edwards yn arbenigo mewn hanes planhigion tir, ac mae hi wedi adnabod rhywogaethau sydd wedi bodoli mwy na 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

"Mae wedi bod yn fraint i mi gael cymorth gan amrywiaeth o gyllidwyr i ddilyn fy niddordebau ar hanes planhigion ar y Ddaear. Rwy'n gobeithio y bydd ymchwil o'r fath yn parhau i fod yn bosibl i wyddonwyr ifanc, i'w galluogi i fwynhau ei bleserau."

Medal Menelaus: am ragoriaeth ym meysydd peirianeg a thechnoleg



Enillydd:
Dr. Drew Nelson FLSW

Mae Dr. Nelson yn gyd-sylfaenydd ac yn llywydd IQE, sydd ar flaen y gad o ran datblygiad De Cymru fel canolfan dechnoleg a chynhyrchu lled-ddargludyddion. Mae ei waith gyda'r llywodraeth, y byd academiaidd a'r sector preifat wedi datblygu'r rhanbarth yn 'Glwstwr Rhagoriaeth'.

"Bydd y technolegau hyn wrth wraidd yr holl ddatblygiadau cymdeithasol mawr, gan gynnwys dyfeisiau gofal iechyd y gellir eu gwisgo, cerbydau trydan a heb yrwy, a thechnolegau pŵer di-garbon."

Medal Hugh Owen: am gyfraniadau i ymchwil addysgol



Enillydd:
Yr Athro EJ Renold

Mae'r Athro Renold, Athro mewn Astudiaethau Plentyndod, Prifysgol Caerdydd, yn gweithio ar addysg rhyw a rhywioldeb, ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i siarad am eu profiadau. Fe wnaethant helpu i ddatblygu cwricwlwm Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb newydd ar gyfer Cymru.

"Mae'r wobwr hon yn arbennig o ingol oherwydd yr etifeddiaeth y bydd yn ei gadael i genedlaethau'r dyfodol o ymchwilwyr addysg ffeministaidd, o'r hyn a allai fod yn bosibl pan fydd cyd-gynhyrchu a chydweithredu'n cael eu cynnal dros amser."

Cydnabod Rhagoriaeth mewn Ymchwil

Medalau Dillwyn: ar gyfer ymchwilwyr gyrfa cynnar eithriadol

Categori Gwyddorau
Cymdeithasol,
Economeg a Busnes



Enillydd:
Dr. Annie Tubadji

Mae Dr. Tubadji, Uwch Ddarliithydd mewn Economeg, Prifysgol Abertawe, yn gweithio ar ragfarn ddiwylliannol, anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Mae wedi canolbwyntio ar anghydraddoldeb, iechyd meddwl a phegynu yn ystod argyfwng Covid-19, ac wedi ennill sylw rhyngwladol.

“Rwy'n falch iawn o'r holl fedalau sy'n bosib – rwy'n teimlo anrhydedd fy mod i wedi cael yr un Dillwyn! Mae'r teulu Dillwyn wedi dangos trwy esiampl fod fy mharadeim Datblygu Seiliedig ar Ddiwylliant yn gweithio'n ymarferol.”

Categori Gwyddoniaeth,
Technoleg, Peirianneg,
Mathemateg a
Meddyginiaeth



Enillydd:
Dr. Emrys Evans

Mae Dr. Evans, Cymrawd Ymchwil y Gymdeithas Frenhinol mewn Cemeg ym Mhrifysgol Abertawe, yn gweithio ar led-ddargludyddion organig, ac yn astudio dosbarth newydd o ddeunyddiau gydag ystod o gymwysiaidau.

“Mae fy ymchwil yn archwilio deunyddiau moleciwlaidd a allai hwylyso cynhyrchu golau sy'n fwy effeithlon o ran ynni a chreu'r sail ar gyfer technolegau newydd. Cefais fy magu yn Abertawe, ac rwy'n hapus fy mod i wedi dychwelyd y llynedd, ac arwain fy ymchwil o Gymru.”

Categori y
Deunyddiau a
Chelfyddydau
Creadigol



Enillydd:
Dr. Ben Guy

Mae Dr. Ben Guy yn Gymrawd Coleg Robinson, Prifysgol Caergrawnt. Mae'n gweithio ar achyddiaeth Gymreig ganoloesol a'i pherthynas â diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru.

“Ar ôl tyfu i fyny yng Nghymru, rwyf wedi cael fy ysgogi bob amser i ddysgu mwy am ei hanes a'i diwylliant diddorol. Rwy'n gobeithio y gallaf ysbrydoli eraill i geisio dealltwriaeth ddyfnach o'r tir hardd ond cymhleth hwn.”

Cyfrannu Arbenigedd

Cynghrair yr Academiâu Celtaidd

Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cymdeithas Frenhinol Caeredin ac Academi Frenhinol Iwerddon Celtic Academies Alliance.

Mae sefydlu'r Gynghrair yn dod ar adeg dyngedfennol, wrth i'r sectorau addysg uwch ac ymchwil ddelio â heriau mawr Covid-19 a Brexit. Mae hefyd yn cynnig cyfle arwyddocaol gyda Llywodraeth y DU o ran datblygu strategaeth ymchwil a datblygu newydd ar gyfer y DU, gan gynnwys ymrwymïadau i 'wella' buddsoddiad ar draws y DU a gyda chynlluniau'n dod i'r amlwg ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU.

Nodau'r Gynghrair yw gweithio gyda'n gilydd i:

- ddarparu cyngor arbenigol annibynnol ar faterion addysg uwch ac ymchwil ac ar faterion allweddol eraill cyffredin;
- gefnogi esblygiad llywodraethu mwy effeithiol o fewn y DU a rhwng y DU ac Iwerddon, yn enwedig yng nghyd-destun ôl-Brexit; a
- gweithio i sicrhau bod Llywodraeth y DU a'i chyrrff yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion a seyllfaoedd gwahanol y gwledydd datganoledig, gan gefnogi cyfathrebu a chydweithredu rhwng y gwahanol lefelau o lywodraeth.

Bydd y Gynghrair yn galluogi'r tri sefydliad i gyfuno'r arbenigedd eang a'r profiad ymarferwyr sy'n bodoli o fewn eu haelodaeth, i lywio datblygiadau polisi cyhoeddus ar lefel y DU ac o fewn y gwledydd datganoledig. Gweithgareddau Celtic Academies Alliance 2020–2021:

- Cyflwyniadau ac ymatebion i fentrau ac ymgynghoriadau'r llywodraeth, e.e. llythyr at Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar weithredu Llwybr Ymchwil a Datblygu'r DU;
- Cyfarfodydd bord gron ar ymchwil a datblygu yn y gwledydd datganoledig;
- Nodiadau esboniadol, e.e. Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: cyfraniad at ymchwil ac arloesi yn y DU (gyda'r Academi Brydeinig)

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Drafft

Yn hydref 2020 cyflwynodd y Gymdeithas sylwadau i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Drafft; gohiriwyd cyflwyno'r bil oherwydd y pandemig coronafeirws. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2021 a bydd y Gymdeithas yn dilyn ei gynnydd trwy'r Senedd.

Mae'r Bil yn sefydlu'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu'r Cyngor Cyllid Addysg Uwch ar gyfer Cymru. Bydd ei naw dyletswydd strategol yn cynnwys cenhadaeth ddinesig, pwysigrwydd rhagolwg rhyngwladol a'r angen i ddatblygu economi gynaliadwy ac arloesol.

Hyrwyddo Dysgu a Dadlau

Trwy Brism Iaith/ Through the Language Prism

Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru symposiwm ynghylch dwyieithrwydd ac amlieithrwydd. Daeth y digwyddiad ag academyddion, ymarferwyr ac ysgrifennwyr at ei gilydd i drafod agweddau o ieithoedd yng Nghymru. Deilliodd y symposiwm o drafodaethau am yr angen i sicrhau dealltwriaeth ehangach o iaith a dehongliad cyfannol o brofiadau, buddion ac effeithiau byw bywydau dwyieithog ac amlieithog.

Dan arweiniad yr Athro Mererid Hopwood o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Prifysgol Aberystwyth erbyn hyn), fe wnaeth grŵp llywio ddatblygu rhaglen i hwyluso trafodaeth gynhwysol ac eang yn cwmpasu pob agwedd o iaith, yn cynnwys cyfathrebu, diwylliant a chreadigrwydd, hunaniaeth, dealltwriaeth ac empathi. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y symposiwm yn Nheml Heddwch ac Iechyd Caerdydd ym mis Mawrth 2020, ond cafodd ei ohirio oherwydd y pandemig coronaferws. Cafodd y digwyddiad ei ohirio tan fis Tachwedd, a chafodd ei gynnal yn rhithwir trwy gyfrwng Zoom dros dri diwrnod, a chafodd ei ddarlledu'n fyw ar blatfform AM. Mae fideos o drafodaethau'r panel ar gael ar ein sianel YouTube. Yn ychwanegol, comisiynwyd naw bardd o Gymru i ysgrifennu cerddi ynghylch

beth yw ystyr iaith iddyn nhw. Dangoswyd y cerddi cymeradwy iawn hyn yn ystod yr egwyliau rhwng y sesiynau, a gellir eu gweld ar wefan y Gymdeithas hefyd.

Mae dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn gysyniad trawsbynciol ac amlddisgyblaethol, ac nid ieithyddion ac addysgwyr yw'r unig rai sy'n ymwneud â'r maes. Maen nhw hefyd yn cwmpasu gwleidyddiaeth, daearyddiaeth, seicoleg, llenyddiaeth a chymdeithaseg, i enwi rhai. Pwysleisiodd y symposiwm fod angen taer i ddatblygu ymwybyddiaeth yng Nghymru o'r cyfoeth o gyfleoedd a buddion a ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd ymhell tu hwnt i'r gallu arwynebol i ddefnyddio mwy nag un gair i enwi pethau. Mae'r argymhellion a ddeilliodd o'r trafodaethau yn cynnig rhywfaint o awgrymiadau ynghylch sut gall Cymru dderbyn a gwireddu'r cyfleoedd a'r buddion hyn a hawlio'r manteision y mae ei phrofiad dwyieithog ac amlieithog yn eu cynnig.

- Mae gan y Cwricwlwm newydd i Gymru botensial sylweddol i ddatblygu dysgu ieithoedd.
- Mae'r profiad o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn cynnig llawer o fuddion.
- Mae pobl yn defnyddio ieithoedd mewn ffyrdd gwahanol, ac mae angen i ni gydnabod hyn.
- Dylid integreiddio polisiau yn well.

Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan.

Digwyddiad Mary McAleese

Roedd hawliau dynol plant yn destun sgwrs rhwng yr Athro Mary McAleese HonFLSW, cyn-Arlywydd Iwerddon a Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.

Hwn oedd y digwyddiad mawr cyntaf i ni ei gynnal ar-lein yn dilyn y pandemig. Cafodd ei drefnu ar y cyd â Phrifysgol Bangor, a denodd dros 300 o fynychwyr. Archwiliodd yr Athro McAleese pa hawliau y gall plant eu disgwyl, a sut y gallwn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu. Archwiliodd y sgwrs eang sut y bu'r Eglwys Canon Law yn rhwystr o ran symud ymlaen, gyda'i phwyslais ar ufuddod yn trechu'r hawl unigol i ryddid. Rôl rhieni a'r wladwriaeth, meddai, yw arwain plant, "fel bod ganddynt hyder wrth drin a dadansoddi'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg yn eu byd pan gânt hawliau oedolion llawn."

Mae'r heriau'n niferus, dadleuodd yr Athro McAleese, ond daeth i'r casgliad: "Mae'n glod i ni ein bod ni wedi magu plant sy'n gallu ffurfio barn a dal eu tir."



Yr Athro Mary McAleese HonFLSW

“ Mae'n glod i ni ein bod ni wedi magu plant sy'n gallu ffurfio barn a dal eu tir. ”

**Yr Athro Mary McAleese
HonFLSW**

Cymru a'r Byd

Hyrwyddo Cymru ar Lefel Ryngwladol: Y Camau Nesaf

Daeth ein cyfres Cymru a'r Byd i ben ym mis Hydref 2020, gyda digwyddiad ar-lein yn cael ei gynnal ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth.

Roedd hyn yn dwyn ynghyd themâu'r tri digwyddiad cyntaf ac yn ystyried defnyddio strategaethau pŵer meddal wrth hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar y celfyddydau, diwylliant, y Gymraeg a phrifysgolion. Gorfennodd y digwyddiad gydag arraith allweddol gan yr Athro Laura McAllister. Dadleuodd fod yn rhaid i lysgenhadon y genedl (gwleidyddol, diwylliannol, chwaraeon) gael caniatâd i fod yn bywiog ac egnïol. Rhaid i gysylltiadau rhyngbersonol a pherthnasoedd ddod yn gyntaf; bydd y dididendau economaidd a chymdeithasol yn dilyn wedyn. Cyhoeddwyd cyhoeddiad, Partneriaethau Byd-eang, Buddaliadau Lleol, a ddaeth â'r themâu o'r pedwar digwyddiad at ei gilydd ym mis Chwefror.

Gwnaeth bedwar prif argymhelliad:

- Dylai Cymru ddiffinio ei rhinweddau unigryw yn gliriach a dylai fod yn hunanhyderus wrth hyrwyddo'r rhain yn rhyngwladol.
- Mae defnyddio ein 'pŵer meddal' yn ddoeth yn arwain at 'fanteision caled'.
- Mae angen cynllunio tymor hwy a buddsoddiad ariannol.

- Dylai Cymru wneud gwell defnydd o sefydliadau'r DU a sefydliadau rhyngwladol a disgwyl mwy ohonynt.

Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am eu nawdd ariannol ar gyfer y prosiect hwn. Hoffem ddiolch i Brifysgol Metropolitan Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth hefyd am gynnal y digwyddiadau.



Digwyddiadau Eraill

Dyfodol SHAPE

Ymunodd yr Athro Julia Black, Llywydd yr Academi Brydeinig, â grŵp bwrdd crwn i drafod gwerth y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r pynciau hyn, a sut y gall buddsoddi ynddynt helpu Cymru i gyflawni ei nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Darlith Arloesi Richard Jones

Archwiliodd yr Athro Richard Jones y cyfleoedd ar gyfer strategaeth ymchwil a datblygu yng Nghymru, yng nghyd-destun map Ymchwil a Datblygu BEIS. Ystyriodd sut i gyd-greu'r strategaeth ymchwil sydd ei hangen ar Gymru, drwy adeiladu ar gryfderau presennol a chreu capasiti ymchwil newydd.

Syr Paul Silk: Sut mae Seneddau'n Gweithio

Defnyddiodd Syr Paul Silk ei ddegawdau o brofiad yn gweithio yn yr uwch-wasanaeth sifil i edrych ar sut mae Seneddau'r DU a Llywodraeth Cymru yn gweithredu. Drwy ddefnyddio enghreifftiau cymharol mewn manau eraill yn y byd, awgrymodd rywfaint o egwyddorion ar gyfer gweithgarwch seneddol mwy effeithiol.

CERN a'r Peiriant Gwrthdaro Hadronau Mawr

Rhoddodd yr Athro Lyn Evans, cyn-arweinydd prosiect y Peiriant Gwrthdaro Hadronau Mawr, CERN, araith ar y wyddoniaeth y tu ôl i gyflymydd gronynnau mwyaf a mwyaf pwerus y byd. Roedd hyn yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau'r Cyfnod Clo i Ddysgwyr a gynhaliwyd gennym yn ystod y pandemig.

Hysting Gwyddoniaeth Etholiadau'r Senedd 2021

Ymunodd ymgeiswyr o'r prif bleidiau gwleidyddol â'r darlledwr a'r hyrwyddwr gwyddoniaeth Elin Rhys, cyn etholiadau Senedd Cymru, i ofyn cwestiynau i'r gynulleidfa ar eu hymrwymiaadau maniffesto ar bolisi gwyddoniaeth. Trefnwyd y digwyddiad gyda'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol, y Sefydliad Ffiseg a'r Gymdeithas Fioleg Frenhinol.

Ein Bywyd mewn Gwyddoniaeth: Digwyddiad Medal Hoggan

Ymunodd tri chyn-dderbynnwyd medal Hoggan Cymdeithas Ddysgedig Cymru, y Fonesig Jean Thomas, yr Athro Tavi Murray a'r Athro Haley Gomez, â'r darlledwr Elin Rhys i drafod eu gyrfaedd, y rhwystrau a'r gwahaniaethu maen nhw wedi'u goresgyn, a sut mae dyfalbarhad a'r awydd am wybodaeth yn allweddol i ddatblygiadau gwyddonol.

Datblygu'r Gymrodoriaeth

Mae dod yn Gymrawd o'r Gymdeithas yn nod rhagoriaeth, gan gydnabod cyfraniad eithriadol i fyd dysgu. Anogwn enwebiadau o bob disgyblaeth academaidd, gwasanaethau cyhoeddus a'r sector preifaf.

Ar ôl ystyriaeth drylwyr gan ein Pwyllgorau Caffael, cafodd y 45 unigolyn a enwyd yn y tudalennau canlynol eu hethol yn Gymrodr. Cyhoeddodd ddau Gymrawd Er Anrhydedd hefyd, ac roeddem wrth ein bodd o'u croesawu i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2021. Cynhaliwyd hyn trwy fideo-gynadledda ac roedd yn gyfarfod llwyddiannus o fwy na 120 o aelodau.

“Byddai'n briodol pe gallai Cymru gyda'i hanes o gloddio am fwynau glo, copr, aur, plwm a metel, godi ei llais ar lwyfan y byd o blaid y dasg frys o gefnu'n llwyr ar echdynnu a defnyddio tanwyddau ffosil.”

Yr Athro Hazel Carby, Cymrawd Anrhydeddus, yn siarad yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Mai 2021.

Cymdeithas Fwy Croesawgar a Chynhwysol

Mae gan y Gymdeithas ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Eleni, fe wnaethom ganolbwyntio ar gydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn ein Cymrodoriaeth, ac fe wnaethom ethol ein cyfran uchaf erioed o Gymrodr benywaidd (38%). Roedd ein Cyngor (bwrdd ymddiriedolwyr) yn gytbwys hefyd o ran rhyw am y tro cyntaf.

Yn ystod yr haf, trefnwyd sesiynau gwybodaeth agored ar gyfer darpar enwebeion ar gyfer ein Cymrodoriaeth, ac fe wnaeth hyn helpu i wneud y broses etholiadol yn gliriach ac yn fwy tryloyw. Yn ogystal, cwblhaodd 140 o bobl arolwg ar-lein ynghylch sut y gall y Gymdeithas fod yn fwy croesawgar a chynhwysol; Cymerodd 20 o'r rheini a ymatebodd ran mewn cyfweiliadau dilynol manwl.

Rydym bellach yn adolygu'r adroddiad o'r ymgynghoriadau hyn, a byddwn yn gosod targedau uchelgeisiol pellach ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn 2021-22.

Cymrodyr a Etholwyd yn 2021

- **Yr Athro Ann Ager FLSW**

Athro Imiwnedd Cellog ac Imiwnotherapi,
Prifysgol Caerdydd

- **Mr David Allen OBE HonLLD FLSW**

Cyn Gadeirydd, Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru

- **Yr Athro Gwyn Bellamy FLSW**

Athro Mathemateg, Prifysgol Glasgow

- **Yr Athro David Benton FLSW**

Athro Seicoleg, Prifysgol Abertawe

- **Dr Louise Bright FLSW**

Cyfarwyddwr Ymchwil ac Ymgysylltu â
Busnes, Prifysgol De Cymru

- **Yr Athro Monica Busse FLSW**

Cyfarwyddwr y Meddwl, Ymennydd, Treialon
Niwrowyddoniaeth, Canolfan Ymchwil
Treialon, Prifysgol Caerdydd

- **Yr Athro Alan Dix FBCS FLSW**

Cyfarwyddwr y Ffowndri Cyfrifiadurol,
Prifysgol Abertawe

- **Yr Athro Edwin Egede FHEA FLSW**

Athro Cyfraith Ryngwladol a Chysylltiadau
Rhyngwladol, Prifysgol Caerdydd

- **Yr Athro Paul Emery OBE FLSW**

Versus Arthritis Athro Rhewmatoleg,
Prifysgol Leeds

- **Yr Athro Tess Fitzpatrick FAcSS FLSW**

Athro Ieithyddiaeth Gymhwysol,
Prifysgol Abertawe

- **Ms Paula Gardiner FTCL FLSW**

Pennaeth Astudiaethau Jazz, Coleg
Brenhinol Cerdd a Drama Cymru



- **Yr Athro Neil Glasser FLSW**

Dirprwy Is-ganghellor, Cyfadran y
Gwyddorau, Daeaar a Bywyd,
Prifysgol Aberystwyth

- **Yr Athro Helen Griffiths FRSB FLSW**

Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi,
Prifysgol Abertawe

- **Yr Athro William Griffiths FRSC FLSW**

Athro Spectrometreg Mas,
Prifysgol Abertawe

- **Yr Athro John Harrington FLSW**

Athro Cyfraith Iechyd Byd-eang,
Prifysgol Caerdydd

- **Yr Athro Maria Hinfelaar FHEA FLSW**

Is-ganghellor a Phrif Weithredwr,
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam



- **Yr Athro Wen Jiang MBE FRSB
FRSM FLSW**

Athro Llawfeddygaeth a Bioleg Tiwmorau,
Prifysgol Caerdydd

- **Yr Athro Richard A.L. Jones FInstP
FLSW FRS**

Athro Ffiseg Deunyddiau a Pholisi Arloesol,
Prifysgol Manceinion





• **Yr Athro Harshinie Karunarathna FHEA FLSW**

Athro Peirianneg Arfordirol,
Prifysgol Abertawe

• **Yr Athro Robert Knipe FGS FLSW**

Athro Emeritws Geoleg Strwythurol,
Prifysgol Leeds

• **Yr Athro David Lamb FRSB FRSC FLSW**

Athro Gwyddorau Biofeddygol,
Prifysgol Abertawe

• **Yr Parch Dorian Llywelyn SJ FLSW**

Llywydd, Sefydliad Astudiaethau
Catholig Uwch, Prifysgol De Califfornia

• **Yr Athro Marian Ludgate FLSW**

Athro Endocrinoleg Folecwlaid,
Prifysgol Caerdydd

• **Dr Steven Luke MBE FICE FISE FLSW**

Ymgynghorydd Annibynnol

• **Yr Athro Serena Margadonna FLSW**

Pennaeth Sefydliad Gweithgynhyrchu'r
Dyfodol a Chadeirydd Peirianneg
Deunyddiau, Prifysgol Abertawe



• **Yr Athro Rachel McCrea FLSW**

Athro Ystadegau, Prifysgol Kent

• **Dr Wyn Meredith FLSW**

Cyfarwyddwr, Canolfan
Lled-ddargludydd Cyfansawdd

• **Yr Athro Helena Miguélez-Carballeira FLSW**

Athro Astudiaethau Hispanig,
Prifysgol Bangor

• **Yr Athro Kevin Morgan FLSW**

Deon Ymgysylltu, Prifysgol Caerdydd

• **Yr Athro Maxim Munday FeRSA FLSW**

Cyfarwyddwr Uned Ymchwil
Economï Cymru ac Athro Economeg,
Prifysgol Caerdydd

• **Yr Athro Ruth Northway OBE FRCN
PFHEA FLSW**

Athro Nyrsio Anabled Dysgu/
Pennaeth Ymchwil y Gyfadran Gwyddorau
Bywyd ac Addysg, Prifysgol De Cymru

• **Yr Athro Emmanuel Ogbonna FLSW**

Athro Rheolaeth a Threfniadaeth,
Prifysgol Caerdydd



• **Yr Athro Leni Oglesby OBE FRSA FLSW**

Ymgynghorydd Annibynnol

• **Yr Athro Alan Palmer FRSB FLSW**

Prif Swyddog Gweithredol, Elixia
MediScience Limited

• **Yr Athro Nigel Richards ARCS FLSW**

Athro Cemeg Fiolegol,
Prifysgol Caerdydd

• **Dr Stephen Roberts FSA FRHistS FLSW**

Cyfarwyddwr, History of Parliament Trust

• **Yr Athro Zoe Skoulding FLSW**

Athro Barddoniaeth ac Ysgrifennu
Creadigol, Prifysgol Bangor

• **Yr Athro Helen Stokes-Lampard
FRCGP FLSW**

Athro Addysg i Feddygon Teulu,
Prifysgol Birmingham / Cadeirydd
Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol



• **Yr Athro Gareth Stratton FBASES
FECSS FRSA FLSW**

Dirprwy Ddirprwy Is-ganghellor,
Gweithgarwch Corfforol, Chwaraeon,
Iechyd a Lles

• **Yr Athro Huw Summers FLSW**

Athro Nanotechnoleg ar gyfer
Iechyd, Prifysgol Abertawe

• **Mr Geraint Talfan Davies OBE
FRIBA FLSW**

Cadeirydd, Sefydliad Cyfarthfa

• **Yr Athro David Toll FLSW**

Athro Peirianeg, Prifysgol Durham

• **Yr Athro David F Williams FREng
FAIMBE FINAE FLSW**

Athro Bioddeunyddiaa a Chyfarwyddwr
Materion Rhyngwladol, Wake Forest
Institute of Regenerative Medicine,
Gogledd Carolina, UDA

• **Ms Nia Williams FLSW**

Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu,
Amgueddfa Genedlaethol Cymru

• **Yr Athro Jianzhong Wu FEI FLSW**

Athro Systemau Ynni Aml-Fector
a Phenfaeth yr Ysgol Peirianeg,
Prifysgol Caerdydd

Cymrodyr er Anrhydedd

Yr Athro Hazel V Carby HonFLSW

Athro Emeritws Astudiaethau
Affricanaidd Americanaidd ac
Astudiaethau Americanaidd,
Prifysgol Iâl



**Mae'r Athro Hazel V. Carby yn arloeswr ym meysydd
ffeministaeth ddu ac mewn llenyddiaeth a
diwylliant diasporig du.**

Mae ei thad yn dod o Jamaica a'i mam o Gymru ac mae ei gwaith hunangofiannol diweddar yn ymwneud â hanes amlddiwylliannol Cymru. Mae hi wedi mentora cenedlaethau o fyfyrwyr sydd wedi dod yn ysgolheigion amlwg yn eu rhinwedd eu hunain. Dyfarnwyd Medal Jay B. Hubbell Cymdeithas Astudiaethau Americanaidd iddi am gyflawniad gydol oes mewn Llenyddiaeth Americanaidd, a Gwobr Nayef Al-Rodhan yr Academi Brydeinig am Ddealltwriaeth Ddiwylliannol Fyd-eang.

**Yr Athro Sir Michael Berry FRS FRSE
FRSA HonFLSW**

Melville Wills Athro Ffiseg
(Emeritws), Prifysgol Bryste




**Mae'r Athro Syr Michael Berry yn un o ffisegwyr
damcaniaethol mwyaf blaenllaw'r byd.**


Mae wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i ffiseg fathemategol yn y parthau clasurol a chwantwm ac wrth eu rhyngwyneb. Mae ei waith yn amrywio o opteg trychinebau i eger llanw i athroniaeth ffiseg. Mae ei wobrau niferus yn cynnwys Medal Frenhinol y Gymdeithas Frenhinol ym 1990, Medal Dirac 1996 y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Ffiseg Theori, Gwobr Wolf 1998 a Gwobr Polyá 2005.

Y Gymrodoriaeth Gyfan

Y gyfran o Fenywod yn y Gymrodoriaeth



Cyfran o Ferched a Dynion a etholwyd fel Cymrodryr yn 2021



■ Dynion ■ Menywod


Crynodeb o Gymrodryr fesul Pwyllgor Archwilio

Cymrodryr y Dyniaethau, Celfyddydau, Gwyddorau Cymdeithasol a Gwasanaeth Cyhoeddus:



- Busnes, Gwasanaeth Cyhoeddus ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Iaith, Llenyddiaeth a Hanes, Damcaniaeth y Celfyddydau Creadigol a Pherfformio.
- Hanes, Archaeoleg, Athroniaeth a Diwinyddiaeth
- Gwyddorau Economaidd a Chymdeithasol, Addysg a'r Gyfraith

Cymrodryr y Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth:



- Meddygaeth a Gwyddorau Meddygol
- Gwyddorau Celloedd, Moleciwlau, Esblygu, Organebau ac Ecosystemau
- Cemeg, Ffiseg, Seryddiaeth a Gwyddorau Daear
- Cyfrifiadura, Mathemateg ac Ystadegau
- Peirianeg

Swyddogion a Chyngor

Ymgorfforwyd y Gymdeithas fel Elusen Siarter Frenhinol yn 2015 (Rhif Elusen Gofrestredig: 1168622). Ein dogfennau llywodraethu presennol yw'r Siarter Frenhinol a'r Is-ddeddfau. Mae'r rhain, ynghyd â Rheoliadau'r Gymdeithas, yn cyfansoddi'n offerynnau llywodraethu.

Swyddogion

Llywydd

Yr Athro Hywel Thomas CBE FREng
FRS PLSW MAE

Is-lywyddion

- Yr Athro Michael Charlton FInstP
MAE FLSW (Gwyddoniaeth,
Technoleg, Peirianneg, Mathemateg
a Meddygaeth)
- Yr Athro Helen Fulton FSA FLSW
(Y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r
Gwyddorau Cymdeithasol)

Trysorydd

- Yr Athro Keith Smith
FRSC FLSW (tan fis Mai 2021)
- Yr Athro Terry Threadgold
(o fis Mai 2021)

Ysgrifennydd Cyffredinol

- Yr Athro K Alan Shore FInstP FLSW

Etholwyd yr Athro Terry Threadgold yn
Trysorydd ym mis Mai 2021.

Aelodau'r Cyngor

Yn ogystal â'r Swyddogion, ffurfiodd y
Cymrodyr canlynol Gyngor y Gymdeithas
(bwrdd yr ymddiriedolwyr)

- Yr Athro Roger Awan-Scully
- Yr Athro Kirsti Bohata (o fis Mai 2021)
- Yr Athro David Boucher (tan fis Mai 2021)
- Dr Sally Davies
- Yr Athro Claire Gorrara
- Yr Athro Alma Harris
- Yr Athro Ieuan Hughes
- Yr Athro John Jones (tan fis Mai 2021)
- Yr Athro Ambreena Manji (o fis Juni 2021)
- Yr Athro Iwan Morus
- Yr Athro Qiang Shen
- Yr Athro John V Tucker
- Yr Athro Carol Tully (o fis Mai 2021)
- Yr Athro Meena Upadhyaya
- Dr Lynn Williams

Noddwr Brenhinol

O fis Mehefin 2019 ymlaen, derbyniodd
Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru,
yn raslon wahoddiad y Gymdeithas i
barhau'n Noddwr Brenhinol am gyfnod
arall o bum mlynedd.

Adolygiad Ariannol

Roedd hon yn flwyddyn bositif arall i gyllid y Gymdeithas. Er bod y pandemig wedi gosod amgylchiadau anodd ar addysg uwch, roeddem yn falch o gael cefnogaeth holl brifysgolion Cymru. Fe wnaeth eu cydnabyddiaeth ariannol o'n rôl fel yr academi genedlaethol ein galluogi i gyflawni ein holl weithgareddau arfaethedig, er yn aml, mewn gwahanol ffurfiau.

Gwelodd 2020-21 ddechrau perthynas ariannol newydd hefyd gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a'n hariannodd i ddatblygu ein Rhwydwaith Ymchwil Gyrfa Gynnar. Cyflawnodd y Gymdeithas warged o £25,546 yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys gwarged anghyfyngedig o £35,481 a diffyg cyfyngedig o £9,935. Roedd gan y Gymdeithas incwm o £304,258 a gwariant o £295,412. Roedd y canlyniad hwn yn arbennig o gadarnhaol yng ngoleuni'r incwm craidd is a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r fantolen yn dangos ein bod wedi cario ymlaen cronfa gyfan o £444,024 ar ddiwedd y cyfnod a oedd


yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig o £437,648 a chronfeydd cyfyngedig o £6,376. Drwy gydol y flwyddyn, chwaraeodd ein Cyngor a'n Pwyllgor Cyllid ran weithredol ym mhollisiau cyllidebu, rheolaeth ariannol a buddsoddi'r Gymdeithas.

Incwm

Cyfanswm ein hincwm oedd £304,258, gostyngiad o £321,179 ar y flwyddyn flaenorol. Parhaodd prifysgolion i ddarparu ein ffynhonnell incwm fwyaf, er bod cyfanswm eu grantiau cyfunol o £166,700 ychydig yn is nag yn 2019-20 (£184,200). Cyfanswm ffioedd derbyn a thanysgrifio ein Cymrodr yr eleni oedd £71,516. Fe wnaethom gynnal ymgyrch codi arian yn 10 oed hefyd, a chynyddu cyfran y Cymrodr sy'n hawlio Cymorth Rhodd ar eu cyfraniadau. Yn olaf, darparodd CCAUC grant newydd o £12,458.

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn parhau i ddarparu cymorth mewn nwyddau hael i'r Gymdeithas, gan gynnwys gofod swyddfa a gwasanaethau TG.

Ffynonellau Incwm



Gwariant

Cyfanswm y gwariant eleni oedd £295,412. Fel yn 2019-20, gosododd Covid-19 gyfyngiadau ar ein gwaith (yn enwedig diffyg digwyddiadau a chyfarfodydd corfforol), gan arwain at arbedion cost sylweddol.

Felly, roedd ein gwariant ar weithgareddau (er enghraifft, digwyddiadau ar-lein, byrddau crwn, datblygu ein Cymrodoriaeth a dyfarnu Medalau) yn bennaf ar gyfer staff, ac yn cyfateb i £177,783 (60.2% o'r gwariant). Ein prif gategoriâu gwariant eraill oedd datblygu polisi cyhoeddus (£51,796 – 17.5%), cyhoeddiadau (£45,192 – 15.3%) a llywodraethu (£20,641 – 7%).

Cronfeydd wrth gefn


Ar 31 Gorffennaf 2021, roedd gan y Gymdeithas gronfeydd rhydd o £428,819 (2020: £391,651). Ni wnaeth ein polisi cronfeydd newid yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cadw digon o gronfeydd anghyfyngedig i dalu am o leiaf chwe mis o'n costau craidd (£138,819), gan sicrhau y gallwn dalu am unrhyw gynnydd sydyn mewn treuliau, treuliau un tro heb eu cyllidebu, neu golled annisgwyl mewn cyllid. Mae'r cronfeydd sy'n weddill yn cefnogi datblygiad tymor hir y Gymdeithas ac wedi'u dynodi'n Gronfa Datblygu Strategol (£290,000). Helpodd ein defnydd o gronfeydd buddsoddi a chyfrifon cynilo enillion sefydlog i gynhyrchu llif incwm ychwanegol cymedrol.

Datblygiadau'r dyfodol

Ar ddiwedd y flwyddyn, cawsom newyddion am grant llawer mwy gan CCAUC, a fydd yn helpu'r Gymdeithas i gyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r sector ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn agor rhaglen waith newydd bwysig, ac yn ein helpu i arallgyfeirio ein ffrydiau incwm. Rydym eisiau sicrhau hefyd, bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd ein gwaith. Bydd hyn yn sicrhau bod ein Cymrodoriaeth, ein gwaith polisi a'n gweithgareddau cyhoeddus yn elwa o'r ystod ehangaf o safbwyntiau.

Mae datganiadau ariannol llawn y Gymdeithas wedi cael eu harchwilio'n annibynnol. Gallwch weld y cyfrifon llawn yn www.learnedsociety.wales.

Categoriâu Gwariant



Crynodeb Ariannol Financial Summary


Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2021
Statement of Financial Activities for the year ending 31 July 2021


	Cronfeydd anghyfyngedig Unrestricted funds	Cronfeydd cyfyngedig Restricted funds	CYFANSWM CRONFEYDD TOTAL FUNDS	CYFANSWM CRONFEYDD TOTAL FUNDS
	2021 £	2021 £	2021 £	2020 £
INCWM A GWADDOLION O/INCOME AND ENDOWMENTS FROM:				
Rhoddion a chymynroddion/ Donations and legacies	108,534	710	109,244	110,571
Gweithgareddau elusennol/ Charitable activities	166,700	23,958	190,658	207,480
Buddsoddiadau/Investments	4,356	-	4,356	3,128
Cyfanswm Incwm a Gwaddolion Total Income and Endowments	279,590	24,668	304,258	321,179
GWARIANT AR/EXPENDITURE ON:				
Gweithgareddau elusennol/ Charitable activities	260,809	34,603	295,412	286,831
Cyfanswm Gwariant Total Expenditure	260,809	34,603	295,412	286,831
Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau/Net (loss)/gain on investments	16,700	-	16,700	(10,209)
Symud Net mewn Cronfeydd/ Net Movement in Funds	35,481	(9,935)	25,546	24,139
CYSONI CRONFEYDD/RECONCILIATION OF FUNDS:				
Cyfanswm cronfeydd a ddygywyd ymlaen/Total funds brought forward	402,167	16,311	418,478	394,339
Cyfanswm cronfeydd i'w dwyn ymlaen Total funds carried forward	437,648	6,376	444,024	418,478

Mantolen ar 31 Gorffennaf 2021/Balance Sheet as at 31 July 2021

	£ 2021	£ 2020
ASEDAU SEFYDLOG/FIXED ASSETS		
Asedau diriaethol/Tangible assets	1,019	-
Asedau anniriaethol/Intangible assets	7,810	10,516
Buddsoddiadau/Investments	119,640	42,039
Cyfanswm Asedau Sefydlog/Total Fixed Assets	128,469	52,555
ASEDAU CYFREDOL/CURRENT ASSETS		
Dyledwyr/Debtors	18,365	20,544
Arian yn y banc ac mewn llaw/Cash at bank and in hand	333,509	375,225
Cyfanswm Asedau Cyfredol/Total Current Assets	351,874	395,769
RHWYMEDIGAETHAU/LIABILITIES		
Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn Creditors: Amounts falling due within one year	(36,319)	(29,846)
ASEDAU CYFREDOL NET/NET CURRENT ASSETS	315,555	365,923
ASEDAU NET/NET ASSETS	444,024	418,478
CRONFEYDD YR ELUSEN/THE FUNDS OF THE CHARITY:		
Cronfeydd incwm cyfyngedig/Restricted income funds	6,376	16,311
Cronfeydd anghyfyngedig/Unrestricted funds	437,648	402,167
CYFANSWM CRONFEYDD YR ELUSEN/ TOTAL CHARITY FUNDS	444,024	418,478

Cysylltu â ni

 Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cofrestrfa'r Brifysgol
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NS

 (+44) 029 2037 6976 / 029 2037 6971 /
029 2037 5054 / 029 2037 6954

 lsw@wales.ac.uk

 www.cymdeithasddysgedig.cymru